Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Yr Adolygiad o Wariant – Goblygiadau i reilffyrdd**

**Dyddiad:** **21 Hydref 2010**

**Gan:** **Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

Yn yr Adolygiad o Wariant a gyhoeddwyd gan y Canghellor ddoe, nid oedd unrhyw sôn am y cynllun i drydaneiddio rheilffordd y Great Western rhwng Abertawe a gorsaf Paddington yn Llundain. Gwnaed cyhoeddiad hefyd ynghylch cynyddu prisiau tocynnau trenau sydd wedi'u rheoleiddio yn Lloegr, a gallai hynny effeithio ar Gymru.

Rwy'n gofyn am eglurder a thryloywder mewn perthynas â chynlluniau Whitehall ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Er imi ofyn dro ar ôl tro, ni chafwyd unrhyw gyhoeddiad hyd yn hyn ynghylch dyfodol y prosiect i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Abertawe a Llundain. Gwyddom fod achos economaidd ac amgylcheddol cryf dros drydaneiddio'r rheilffordd hyd at Abertawe. Mae buddsoddi yn y seilwaith drafnidiaeth yn hanfodol i helpu'r economi i adfer ar ôl y dirwasgiad. Bydd trydaneiddio'r rheilffordd yn golygu teithiau cyflymach, lle i fwy o deithwyr, a llai o niwed i'r amgylchedd.

Ddoe, roedd gan Lywodraeth y DU gyfle da i wneud datganiad cadarnhaol i ymrwymo i drydaneiddio'r rheilffordd hyd at Abertawe, fel ag y gwnaethant yn achos llu o brosiectau yn Lloegr a'r Alban, gan gynnwys pecyn gwerth £2.1 biliwn i wella gorsafoedd yn Lloegr. Yn lle hynny, datgelodd y Canghellor y byddai gwelliannau i'r rheilffyrdd yn y Barri, Caerdydd a Chasnewydd yn mynd yn eu blaenau – rydym yn synnu'n fawr wrth hyn, gan nad oedd unrhyw farc cwestiwn dros y cynlluniau hyn i ailosod signalau, yr ymrwymwyd iddynt yn wreiddiol yn 2007 ac yr oedd cyllid eisoes wedi'i ddyrannu ar eu cyfer.